monmouthshire
sir fynwy



# DOGFEN YMGYNGHORI

## I SEFYDLU YSGOL GYNRADD GYMRAEG NEWYDD YN NHREFYNWY

## CYNNWYS


1. cyflwyniad ..... 2
2. GWYBODAETH GEFNDIR ..... 2
3. GWERTHUSO OPSIYNAU ..... 3
   3.1 YR OPSIWN A FFAFRIR ..... 5
4. Y CYNNIG ..... 5
5. RISGIAU A GWRTHFESURAU ..... 9
6. ysgolion bydd y cynnig yn effeithio arnynt ..... 10
7. ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG ..... 12
8. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG ..... 14
9. CYLLID ..... 14
10. TIR AC ADEILADAU ..... 15
11. TREFNIADAU YMGYNGHORI ..... 15
   11.1 PROSES YMGYNGHORI FFURFIOL ..... 15
   11.2 YMGYNGHORIAD GYDA PHLANT A PHOBL IFANC ..... 16
   11.3 DIWEDD y cyfnod ymgynghori ffurfiol ..... 17
12. StaffiO ..... 17
13. ASESIAD EFFAITH AR Y GYMUNED / EFFAITH AR GYDRADDOLDEB ..... 18
   13.1 asesiad o'r effaith ar y gymuned ..... 18
   13.2 ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB ..... 18
14. EFFAITH AR Y GYMRAEG ..... 18
15. TREFNIADAU DERBYN ..... 19
16. CLUDIANT RHWNG Y CARTREF A'R YSGOL ..... 19
17. GWYBODAETH ARALL ..... 19
18. ATODIAD 1 – DALGYLCHOEDD ARFAETHEDIG ..... 20
19. atodiad 2 – ADRODDIADAU ESTYN ..... 20
20. ATODIAD 3 – rhestr ymgyngoreion ..... 25
21. ATODIAD 4 – ffurflen ymateb ..... 26

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Sir Fynwy yn cefnogi'n llawn ac yn hollol ymroddedig i Cymraeg 2050, strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, sy'n cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae'r strategaeth yn anelu i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 filiwn erbyn 2050.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddent yn darparu cyllid i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf a hwyluso twf addysg cyfrwng Cymraeg a'r defnydd o'r iaith.

Bu Cyngor Sir Fynwy yn llwyddiannus yn ei gais am gyllid i agor ysgol gynradd Gymraeg egin gyda darpariaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn ardal Trefynwy yn amodol ar brosesau ymgynghori statudol llwyddiannus.

Mae'r ddogfen hon yn cynrychioli cyfrifoldebau'r Cyngor fel rhan o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (dogfen a gynhyrchwyd yn sgil Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 201) i ymgynghori gyda rhanddeiliaid priodol wrth ystyried unrhyw gynigion sylweddol ar gyfer ad-drefnu ysgolion.

Diben y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth ar gynnig y Cyngor i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg egin yn Nhrefynwy.

## 2. GWYBODAETH GEFNDIR

Mae gan Sir Fynwy ddwy ysgol gynradd Gymraeg ar hyn o bryd sef Ysgol Gymraeg y Fenni yng ngogledd y sir a Ysgol Gymraeg y Ffin yng Nghil-y-coed, yn ne'r sir.

Rydym wedi cynyddu darpariaeth Gymraeg yn y gogledd drwy gynyddu capasiti Ysgol Gymraeg y Fenni i 317. Cynigir hefyd adleoli'r ysgol i safle newydd ym mis Medi 2024 fydd yn ei galluogi i ddod yn ysgol gynradd gyda 420 lle.

Rydym wedi dechrau ar y gwaith o adnewyddu ac ehangu Ysgol Gymraeg y Ffin i sicrhau fod ganddi'r capasiti i ddod yn ysgol gynradd 210 lle gyda Chylch Meithrin o fewn safle'r ysgol.

Er fod y rhain yn ddatblygiadau pwysig, rydym yn cydnabod nad oes darpariaeth gynradd Gymraeg ar gael yng ngogledd ddwyrain Sir Fynwy ar hyn o bryd ac fel canlyniad mae gennym gynlluniau i agor ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Nhrefynwy.

Cynhaliwyd gwaith sylweddol yn ystod y tair blynedd ddiwethaf i ddynodi lleoliad addas ar gyfer ysgol gynradd Gymraeg newydd yn ardal Trefynwy. Fodd bynnag, er gwaethaf ein hymdrechion, nid ydym wedi medru sicrhau safle addas o fewn y dref oherwydd diffyg tir ar gael neu dir addas.

Er ein bod wedi edrych ymhellach mas, barnwyd fod unrhyw ddarpar safleoedd yn anaddas a/neu fod gormod o bellter teithio.

Mae gwybodaeth bellach yn y gwerthusiad opsiynau isod.

## 3. GWERTHUSO OPSIYNAU

**Opsiwn 1** – Gwneud dim a chadw'r sefyllfa fel y mae. Byddai hyn yn golygu na fyddai unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol.

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| Cost isel | Dim yn rhoi darpariaeth gynradd Gymraeg yn ardal Trefynwy lle dynodwyd fod galw |
| | Bydd disgyblion yn parhau i deithio pellter maith i gael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg a gall hyn leihau'r galw |
| | Ni fyddai'n cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2060 |
| | Ni fyddem yn cyrraedd y targedau a gytunwyd yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg |

**Opsiwn 2** – Adeiladu ysgol gymunedol Gymraeg newydd ar safle newydd yn ardal Trefynwy i gynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant.

| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
|---|---|
| Byddai'n diwallu'r galw a ddynodwyd yn ardal Trefynwy | Cost uchel |
| Ni fyddai angen i ddisgyblion sy'n byw yn ardal Trefynwy deithio pellter maith i gael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg | Nid oes unrhyw safleoedd adeiladu addas ar gael yn ardal Trefynwy |
| Gallai adeiladu ysgol newydd ysgogi galw | Ni fyddid yn gwneud defnydd llawn o'r stad ysgolion cyfrwng Saesneg presennol |
| Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | Gall fod effaith ar y nifer sy'n teithio i'r Fenni gan arwain at leoedd gwag yn yr ysgol honno |
| Cynyddu argaeledd darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant cyfrwng Cymraeg | Byddai effaith gyfyngedig ar y galw a rhifau pontio cynradd/uwchradd |

**Opsiwn 3 –** Defnyddio Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Osbaston yn Nhrefynwy i greu darpariaeth gynradd Gymraeg ychwanegol a gofal plant dwyieithog

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Cost canolig | Byddai'n anodd trin y cynnydd mewn traffig oherwydd diffyg gofod |
| Ni fyddai angen i ddisgyblion sy'n byw yn Nhrefynwy deithio pellter maith i gael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg | Efallai na fyddai ysgol Osbaston yn hwyluso defnydd o'u safle |
| Gwella cyfleusterau ym mhob ysgol sy'n ymwneud â'r datblygiad | Ni fyddai rhannu safle yn cefnogi trochi llawn yn y Gymraeg |
| Rhoi cyfle i gynyddu nifer y lleoliadau gofal plant | Mae risg llifogydd yn yr ardal |
| Gwneud defnydd gwell a mwy effeithiol o ddarparu addysg ar gyfer y dyfodol yn ogystal â rheoli'r stad ysgolion yn fwy effeithiol | Gall y gofod ar y safle fod yn gyfyngedig a heb fod yn ddigonol ar gyfer dwy ysgol |
| Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | Ystyriaethau cyfreithiol yn ymwneud â pherchnogaeth o'r tir |

**Opsiwn 4** – Defnyddio hen adeilad ysgol iau Rhaglan i greu darpariaeth gynradd Gymraeg ac adeiladu darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant cyfrwng Cymraeg ar y safle.

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Cost ganolig | Gall y niferoedd yn ysgol gynradd Rhaglan ostwng |
| Byddai gan yr ysgol newydd ei safle ei hun | Gall nifer disgyblion fod yn is oherwydd na fyddai rhieni yn byw yn y dref eisiau i'w plant gael eu cludo |
| Mae'r safle yn hygyrch ac yn llai agored i bryderon am draffig | Gall fod gwrthwynebiad i'r cynnig gan y gymuned |
| Rhoi cyfle i gynyddu nifer y lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant cyfrwng Cymraeg | Ni fyddai'r ddarpariaeth yn nhref Trefynwy |
| Lleoliad canolog felly gallai pellteroedd teithio gael eu gostwng ar gyfer disgyblion yn byw mewn ardaloedd tu allan i'r dref | |
| Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | |
| Cyfle i greu ysgol bro | |

**Opsiwn 5 –** Defnyddio'r adeiladau presennol sydd ar gael ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg egin a darpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant.

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Cost ganolig | Gall nifer disgyblion yn Overmonnow ostwng dros gyfnod |
| Ni fyddai angen i ddisgyblion sy'n byw yn Nhrefynwy deithio pellter maith i gael mynediad i ddarpariaeth Gymraeg | Problemau rheoli traffig |
| Gallai Cylch Meithrin Trefynwy drosglwyddo i'r safle newydd | Ni fyddai rhannu safle yn cefnogi trochi llawn yn y Gymraeg |
| Cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | |
| Gwneud ffyrdd gwell a mwy effeithiol o ddarparu addysg ar gyfer y dyfodol yn ogystal â rheoli y stad ysgolion yn fwy effeithiol | |
| Rhoi cyfle i gynyddu nifer y lleoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg | |

### 3.1 YR OPSIWN A FFAFRIR

Yr opsiwn a ffafriwn yw opsiwn 5, sef defnyddio'r adeiladau presennol sydd ar gael ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg egin 3-11 oed i gynnwys darpariaeth gofal plant.

## 4. Y CYNNIG

***Y cynnig yw sefydlu ysgol gynradd Gymraeg 3-11 newydd drwy fodel egin/twf ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow o 1 Medi 2024. Cyflawnir hyn drwy ddefnyddio'r adeiladau presennol yn yr ysgol. Bydd hefyd ddarpariaeth feithrin a gofal plant gan yr Awdurdod Lleol.***

O fis Medi 2023 bydd dosbarth ategol cyfrwng Cymraeg ar safle ysgol gynradd Overmonnow. Caiff y ddarpariaeth hon ei harwain, ei rheoli a'i llywodraethu gan Ysgol Gymraeg y Ffin. Os cytunir ar y cynnig, caiff ysgol gynradd Gymraeg egin newydd ei sefydlu. Felly nid yw'r dosbarth ategol yn amodol ar y broses ymgynghori yma.

Bydd yr ysgol yn agor i ddechrau gyda disgyblion dosbarth meithrin, derbyn a blwyddyn 1. Bydd disgyblion sy'n mynychu'r dosbarth ategol ar hyn o bryd yn trosglwyddo'n awtomatig i'r ysgol newydd.

Mae Ysgol Gynradd Overmonnow yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn nhref Trefynwy. Yn dilyn arolwg cyflwr a gynhaliwyd yn 2019, cafodd adeiladau'r ysgol eu

rhoi yng nghategori cyflwr C, a ddiffinnir fel *"Gweithredol ond bydd angen gwaith atgyweirio sylweddol neu adeiladau newydd yn y tymor byr i'r tymor canol (fel arfer 3 blynedd)".* Amcangyfrifir fod yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn £251,898.93.

Mae angen peth gwaith ailwampio yn ysgol gynradd Overmonnow i alluogi darparu ar gyfer y ddwy ysgol ar yr un safle.

<u>Ysgolion Egin</u>

Mae ysgol egin yn fodel twf y gwnaed defnydd da ohono gan awdurdodau cyfagos. Mae'n galluogi defnydd effeithiol o gyfleusterau a staff tra bydd yr ysgol yn tyfu i'w photensial llawn.

Manteision ysgol egin

- Byddai capasiti yr ysgol yn tyfu dros gyfnod yn unol â'r galw
- Twf sefydlog i gefnogi ysgolion presennol
- Gostwng posibilrwydd symudiad llu o ddisgyblion o ysgolion eraill
- Rheoli maint dosbarthiadau yn effeithiol i gefnogi staffio a chyllideb yr ysgol

Anfanteision ysgolion egin

- Cymryd nifer o flynyddoedd i gyflenwi twf ac nid yw'r twf yn llinellog
- Goblygiadau posibl ar gyfer brodyr a chwiorydd gyda newid mewn dalgylchoedd
- Goblygiadau posibl ar gyfer teuluoedd yn symud i'r ardal gyda phlant o wahanol oed oherwydd newid mewn dalgylchoedd

Yn ei blwyddyn gyntaf bydd gan yr ysgol ddisgyblion mewn dosbarthiadau meithrin, derbyn a blwyddyn 1, ychwanegir grŵp blwyddyn bob blwyddyn academaidd nes bydd cohort Blwyddyn 1 yn cyrraedd Blwyddyn 6. Bydd pob un o'r saith grŵp blwyddyn yn eu lle erbyn mis Medi 2029.

Mae'r tabl isod yn dangos sut bydd yr ysgol yn tyfu os dyrennir lleoedd i'r uchafswm nifer o ddisgyblion.

| **Grŵp Blwyddyn** | **Derbyn** | **Bl. 1** | **Bl. 2** | **Bl. 3** | **Bl. 4** | **Bl. 5** | **Bl. 6** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Academaidd** | **Uchafswm nifer lleoedd fesul grŵp blwyddyn** | | | | | | | |
| **2024/25** | 30 | 30 | | | | | | 60 |
| **2025/26** | 30 | 30 | 30 | | | | | 90 |
| **2026/27** | 30 | 30 | 30 | 30 | | | | 120 |
| **2027/28** | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | | | 150 |
| **2028/29** | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | | 180 |
| **2029/30** | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 | 210 |

Amcanestyniad Nifer Disgyblion

Mae'r amcanestyniad isodw yn dangos sut bydd yr ysgol yn tyfu yn seiliedig ar y disgyblion sy'n derbyn darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn yr ardal ar hyn o bryd. Rydym hefyd wedi edrych ar dueddiadau twf ar gyfer ein hysgolion cynradd Cymraeg cyfredol pan gawsant eu sefydlu i ddechrau a gweithredu cynnydd canrannol.

| **Grŵp Blwyddyn** | **Derbyn** | **Bl. 1** | **Bl. 2** | **Bl. 3** | **Bl. 4** | **Bl. 5** | **Bl. 6** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn Academaidd** | | | | | | | | |
| **2024/25** | 10 | 7 | | | | | | 17 |
| **2025/26** | 7 | 10 | 7 | | | | | 24 |
| **2026/27** | 4 | 7 | 10 | 7 | | | | 28 |
| **2027/28** | 6 | 4 | 7 | 10 | 7 | | | 34 |
| **2028/29** | 9 | 6 | 4 | 7 | 10 | 7 | | 43 |
| **2029/30** | 6 | 9 | 6 | 4 | 7 | 10 | 7 | 49 |

Adeiladau

Mae Ysgol Gynradd Overmonnow yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg yn nhref Trefynwy. Eu nifer derbyn a gyhoeddwyd yw 55 ac mae cyfanswm capasiti yr ysgol yn 390. Mae hefyd feithrinfa 60 lle a all ddarparu ar gyfer 120 o blant dros sesiwn bore neu brynhawn sydd wedi'i lleoli yn eu hadeilad eu hunain. Yn dilyn arolwg cyflwr a gynhaliwyd yn 2019, rhoddwyd adeiladau ysgol gynradd Overmonnow yng nghategori C, a ddiffiniwyd fel *"Gweithredol ond bydd angen gwaith atgyweirio sylweddol neu adeilad newydd yn y tymor byr i'r tymor canol (fel arfer 3 blynedd)".* Amcangyfrifir fod yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn £251,898.93.

Mae angen peth gwaith ailwampio ac adeiladu yn ysgol gynradd Overmonnow er mwyn lleoli'r ddwy ysgol ar yr un safle. Ar hyn o bryd mae gan Overmonnow 13 dosbarth gweithredol, mae ganddynt hefyd adeilad dros dro gyda dwy ystafell dosbarth bellach. Fodd bynnag, mae'r adeilad dros dro mewn cyflwr gwael ac ni chafodd ei ddefnyddio ar gyfer addysgu ers peth amser. Felly cynigir adeiladu dwy ystafell ddosbarth newydd lle mae'r adeilad dros dro ar hyn o bryd. Bydd hyn yn galluogi lleoli'r ysgol gynradd Gymraeg newydd mewn 3 o'r ystafelloedd dosbarth presennol.

Rhoddir trosolwg o gyfleusterau a gaiff eu cynnwys yn ysgol gynradd Overmonnow a'r ysgol gynradd Gymreg newydd isod:

Ysgol gynradd Gymraeg

- 3 ystafell ddosbarth cyfredol

- Toiledau
- Ystafelloedd cotiau
- Mynediad i’r neuadd
- Mynediad i ddysgu awyr agored
- Maes chwarae

I ddechrau bydd gan yr adeiladau gapasiti ar gyfer 30 disgybl meithrin gyda gofal plant cofleidiol a 60 disgybl cynradd a dros gyfnod ac yn seiliedig ar y galw bydd hyn yn cynyddu i 210 yn unol â tharged ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

<u>Ysgol Gynradd Overmonnow</u>

- 10 ystafell ddosbarth gyfredol
- Neuadd
- 2 ystafell ddosbarth newydd
- Adeilad meithrin
- Swyddfa
- Ystafell staff
- Canolfan Adnoddau Arbennig
- Maes chwarae
- Llyfrgell

Capasiti cyfredol Ysgol Gynradd Overmonnow yw 390 a’r nifer derbyn yw 55, felly byddai’r capasiti cyfredol yn gostwng i 360 a byddai’r nifer derbyn yn 51.

Caiff mynediad i’r ardaloedd chwarae awyr agored ei reoli ar y cyd rhwng y ddwy ysgol.

<u>Darpariaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant</u>

Ar hyn o bryd mae dau leoliad yn Sir Fynwy sy’n darparu addysg gynnar cyfrwng Cymraeg, mae’r ddau yn ddosbarthiadau meithrin a gynhelir gan yr awdurdod lleol ac wedi eu lleoli yn Ysgol Gymraeg y Fenni ac Ysgol Gymraeg y Ffin. Mae’r galw am y lleoedd hyn wedi cynyddu yn y 5 mlynedd ddiwethaf.

Mae hefyd ddau leoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg nas cynhelir yn Sir Fynwy, sef Cylch Meithrin y Fenni a Chylch Meithrin Cil y Coed. Mae’r rhain wedi eu lleoli ar neu’n agos at safle’r ysgolion a maent yn cynnig gofal plant cofleidiol ar gyfer meithrinfa’r ysgol, yn ogystal â gofal plant ar gyfer plant iau, yn cynnwys gofal plant Dechrau’n Deg. Bu cynnydd sylweddol yn y galw am y lleoedd hyn yn y 5 mlynedd ddiwethaf.

Dangosodd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a gyhoeddwyd yn 2022 yr angen i ehangu nifer y lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg, yn arbennig mewn ardaloedd fel Trefynwy lle nad oes unrhyw ddarpariaeth gofal plant ac addysg gynnar cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Sefydlwyd Cylch Meithrin yn Nhrefynwy yn gweithredu o’r Ganolfan Gymunedol ond dim ond gofal sesiynol ddwywaith yr wythnos y gallai

gynnig. Roedd hyn yn ei gwneud yn anodd cadw staff ac roedd cynaliadwyedd yn broblem barhaus oherwydd galw cyfyngedig, gan nad oedd y ddarpariaeth hon yn opsiwn hyfyw ar gyfer llawer o rieni mewn gwaith. Yn anffodus, cafodd y lleoliad ei gau ym mis Tachwedd 2022.

Mae Mudiad Meithrin yn teimlo y byddai'n haws recriwtio pe byddid yn sefydlu darpariaeth gofal plant ar safle'r ysgol ac y gallai gynnig oriau hirach am bum diwrnod yr wythnos.

Y cynnig ar gyfer yr ysgol Gymraeg newydd yw y byddai'n cynnwys meithrinfa a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn darparu lleoedd addysg gynnar ar gyfer plant 3 a 4 oed. Byddem hefyd yn sefydlu Cylch Meithrin cyfrwng Cymraeg nas cynhelir ar safle'r ysgol i ddarparu gofal plant cofleidiol ar gyfer plant 3 a 4 oed, yn ogystal â gofal plant Dechrau'n Deg ar gyfer plant 2 oed.

Dalgylchoedd

Bydd angen sefydlu dalgylch ar gyfer yr ysgol gynradd Gymraeg egin felly bydd angen i ni ddiwygio dalgylchoedd Ysgol Gymraeg y Fenni ac Ysgol Gymraeg y Ffin i adlewyrchu'r ddarpariaeth ychwanegol yn Nhrefynwy.

Mae'r dalgylchoedd presennol ac arfaethedig i'w gweld yn atodiad 1. Cawsant eu sefydlu gan roi ystyriaeth i amserau teithio a'r amcanestyniad galw ar gyfer lleoedd ysgol yn yr ardaloedd cyfagos.

## 5. RISGIAU A GWRTHFESURAU

| Risgiau | Gwrthfesurau |
|---|---|
| Ni chaiff y prosiect ei gyflawni ar amser ac o fewn y gyllideb | Anelu i gyrraedd dyddiadau'r rhaglen i gyflenwi ar amser<br>Darperir cyllid grant gan Lywodraeth Cymru<br>Monitro tendrau a chraffu ar yr hyn a gynhwysir yn y pecyn |
| Derbyn gwrthwynebiadau statudol i'r cynigion | Sicrhau y caiff prosesau ymgynghori statudol eu dilyn ac yr ymgynghorir â rhanddeiliaid allweddol a'u bod yn cael gwybodaeth lawn o'r cychwyn cyntaf |
| Nid yw'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg fel y disgwylid ac mae nifer disgyblion yn isel | Mae'n anodd iawn rhagweld os bydd y galw am leoedd fel y disgwylid. Caiff ymgyrch hyrwyddo addas ei datblygu hefyd i ysgogi galw. |
| Mae mwyafrif y fformiwla cyllid yn seiliedig ar nifer disgyblion ac felly bydd ysgolion twf yn gweld oedi mewn cyllid a allai roi'r ysgol mewn diffyg. | Mae elfennau o'r fformiwla cyllid sy'n cynnig diogeliad i alluogi ysgolion i ddosbarthiadau o uchafswm o 30 ym mhob cyfnod allweddol. Yn ychwanegol at hyn caiff isafswm lefel cyllid ei |

| | |
|---|---|
| | gynnwys ar gyfer rheoli a gweinyddiaeth. Cafodd nifer o gostau'r safle eu dirprwyo ar arwynebedd llawr fydd yn galluogi rhoi adnoddau i ystafelloedd dosbarth. |
| Gall nifer ar y gofrestr yn ysgolion cyfrwng Saesneg clwstwr Trefynwy ostwng fel canlyniad i'r cynnig | Caiff hyn ei wrthbwyso gan gynnydd yn nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg ond drwyddi draw bydd nifer y lleoedd yr un fath. |
| Gall fod cynnydd mewn lleoedd dros ben mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o fewn y clwstwr. | Cedwir golwg agos ar leoedd dros ben a gweithredir cynigion ail-drefnu ysgolion os oes angen. |

## 6. YSGOLION BYDD Y CYNNIG YN EFFEITHIO ARNYNT

Mae'r tabl isod yn dangos gwybodaeth gyffredinol ar yr ysgolion y bydd y cynigion yn effeithio arnynt neu'n debygol o effeithio arnynt.

Gall y cynnig effeithio ar Ysgol Gymraeg y Fenni ac Ysgol Gymraeg y Ffin oherwydd y bydd dalgylchoedd yr ysgolion hyn yn gostwng a gall rhieni ddewis anfon eu plant at y ddarpariaeth egin newydd oherwydd ei leoliad ac y daw'r ysgol agosaf a'r ysgol dalgylch iddynt. Mae'n bosibl y bydd y cynnig yn effeithio ar bob ysgol o fewn clwstwr Trefynwy yn arbennig Overmonnow oherwydd ei fod ar yr un safle.

Cafodd y categori Iaith a'r capasiti eu cyfrifo yn defnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru "Mesur capasiti ysgolion yng Nghymru" ac mae'r capasiti isod wedi ei seilio ar gyfer y cyfrifiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23.

| Enw'r Ysgol | Categori Iaith | Math Ysgol | Capasiti a Nifer Derbyn | Nifer Lleoedd Meithrin | Ystod Oed | Nifer Disgyblion Ion 2023 (heb gynnwys Meithrin) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gymraeg y Fenni** | Cymraeg | Cymunedol | 317 / 45 | 60 | 3-11 | 254 |
| **Ysgol Gymraeg y Ffin** | Cymraeg | Cymunedol | 180 / 25 | 30 | 3-11 | 104 |
| **Ysgol Gynradd Overmonnow** | Saesneg | Cymunedol | 390 / 55 | 60 | 3-11 | 298 |
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Osbaston** | Saesneg | Gwirfoddol a Reolir | 210 / 30 | D/B | 4-11 | 208 |
| **Ysgol Gynradd Kymin View** | Saesneg | Cymunedol | 210 / 30 | 60 | 3-11 | 154 |
| **Ysgol Gynradd Llandogo** | Saesneg | Cymunedol | 111 / 15 | D/B | 4-11 | 64 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Rhaglan** | Saesneg | Gwirfoddol a Reolir | 210 / 30 | D/B | 4-11 | 171 |
| **Ysgol Gynradd Tryleg** | Saesneg | Cymunedol | 180 / 25 | D/B | 4-11 | 181 |
| **Ysgol Gynradd Cross Ash** | Saesneg | Cymunedol | 210 / 30 | D/B | 4-11 | 169 |
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Brynbuga** | Saesneg | Gwirfoddol a Reolir | 280 / 40 | D/B | 4-11 | 258 |

Mae'r tabl dilynol yn dangos nifer y disgyblion ar y gofrestr ar gyfer y pedwar cyfrifiad ysgol blynyddol diwethaf ar gyfer pob ysgol y mae'r cynnig yn effeithio arnynt. Nid yw'r ffigurau yn cynnwys disgyblion meithrin na disgyblion ar y gofrestr mewn canolfannau Adnoddau Arbennig.

| Enw'r Ysgol | Ionawr 2022 | Ionawr 2021 | Ionawr 2020 | Ionawr 2019 |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gymraeg y Fenni** | 250 | 228 | 232 | 230 |
| **Ysgol Gymraeg y Ffin** | 93 | 92 | 101 | 108 |
| **Ysgol Gynradd Overmonnow** | 309 | 311 | 296 | 298 |
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Osbaston** | 204 | 210 | 208 | 201 |
| **Ysgol Gynradd Kymin View** | 154 | 165 | 164 | 183 |
| **Ysgol Gynradd Llandogo** | 72 | 78 | 79 | 67 |
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Rhaglan** | 182 | 195 | 199 | 202 |
| **Ysgol Gynradd Tryleg** | 178 | 172 | 180 | 176 |
| **Ysgol Gynradd Cross Ash** | 172 | 174 | 175 | 182 |
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Brynbuga** | 274 | 278 | 269 | 261 |

Mae'r tabl isod yn rhoi amcanestyniad nifer disgyblion ar gyfer y pum mlynedd nesaf ar gyfer yr ysgolion y mae'r cynigion yn debyg o effeithio arnynt

| Enw'r Ysgol | Medi 2023 | Medi 2024 | Medi 2025 | Medi 2026 | Medi 2027 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gymraeg y Fenni** | 252 | 258 | 274 | 277 | 286 |
| **Ysgol Gymraeg y Ffin** | 112 | 113 | 121 | 120 | 122 |
| **Cyfanswm cyfrwng Cymraeg** | 264 | 371 | 395 | 397 | 408 |
| **Ysgol Gynradd Overmonnow** | 300 | 280 | 265 | 264 | 258 |
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Osbaston** | 207 | 205 | 207 | 208 | 210 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Kymin View** | 140 | 126 | 113 | 110 | 102 |
| **Ysgol Gynradd Llandogo** | 58 | 64 | 69 | 66 | 66 |
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Rhaglan** | 157 | 155 | 148 | 135 | 127 |
| **Ysgol Gynradd Tryleg** | 167 | 164 | 157 | 139 | 136 |
| **Ysgol Gynradd Cross Ash** | 173 | 174 | 170 | 160 | 162 |
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Brynbuga** | 260 | 247 | 233 | 223 | 208 |
| **Cyfanswm yng nghlwstwr Trefynwy** | **1462** | **1415** | **1362** | **1305** | **1269** |

Mae'r tabl isod yn dangos graddiad cyflwr adeiladau a aseswyd yn ystod yr arolwg cyflwr diweddaraf a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Fynwy ar gyfer yr ysgolion hynny y mae'r cynnig fwyaf tebygol o effeithio arnynt:

| Graddiad Cyflwr | Diffiniad |
|---|---|
| A | Cyflwr fel newydd |
| B | Cadarn, gweithredol ddiogel ac dim ond yn dangos mân ddirywiad |
| C | Gweithredol ond angen atgyweiriadau sylweddol neu adeilad newydd yn y tymor byr i dymor canol (3 blynedd fel arfer) |
| D | Ni fedrir ei defnyddio neu mewn risg difrifol o fethiant sylweddol neu chwalfa |

| Ysgol | Graddiad cyflwr |
|---|---|
| **Ysgol Gymraeg y Fenni** | C |
| **Ysgol Gymraeg y Ffin** | C |
| **Ysgol Gynradd Overmonnow** | C |
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Osbaston** | C |
| **Ysgol Gynradd Kymin View** | B |
| **Ysgol Gynradd Llandogo** | C |
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Rhaglan** | A |
| **Ysgol Gynradd Tryleg** | C |
| **Ysgol Gynradd Cross Ash** | C |
| **Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Brynbuga** | C |

## 7. ANSAWDD A SAFONAU MEWN ADDYSG

Fel ysgol newydd, bydd tîm arweinyddiaeth yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn derbyn cefnogaeth gan yr Awdurdod Lleol a hefyd gan gonsortiwm rhanbarthol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) i helpu sicrhau fod yr ysgol yn sefydlu arferion rheoli ac addysgu effeithiol. Mae gan Sir Fynwy hanes da o ddarparu addysg gynradd ansawdd uchel, heb i ddim o'n hysgolion cynradd nac uwchradd fod mewn categori Estyn fel ym mis Rhagfyr 2019.

Mae ystyriaeth o effaith posibl y cynnig ar safonau ac ansawdd yn gydnaws gyda fframwaith arolygu Estyn.

Dysgu

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar ansawdd dysgu yn unrhyw un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg yng nghlwstwr Trefynwy na'r naill na'r llall o'r ysgolion Cymraeg yr effeithir arnynt. Bydd yr ysgol gynradd Gymraeg newydd yn debyg y lefel briodol o her a chefnogaeth i sicrhau y cyflawnir dysgu ansawdd uchel.

Llesiant ac agweddau at ddysgu

Bydd creu ysgol gynradd Gymraeg egin newydd yn Nhrefynwy yn cynyddu dewis i rieni yn y dref drwy ddarparu addysg Gymraeg yn nes gartref ar gyfer plant sy'n byw yng ngogledd ddwyrain y sir. Fel canlyniad i amserau teithio byrrach, disgwyliwn y bydd y cynnig yn gwella'n sylweddol lesiant plant yn y ddarpariaeth egin. Mae llesiant disgyblion yn flaenoriaeth a gaiff ei fonitro a'i adrodd drwy brosesau hunanwerthuso a chynlluniau gwella ysgolion. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar lesiant ac agweddau at ddysgu yn yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt.

Profiadau addysgu a dysgu

Bydd profiadau addysgu a dysgu yn yr ysgol Gymraeg newydd yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru gyda'r Gymraeg yn iaith addysgu a dysgu. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar brofiadau addysgu a dysgu yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt.

Gofal, cefnogaeth ac arweiniad

Caiff yr ysgol gynradd Gymraeg newydd ei chefnogi gan yr awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i ddarparu gofal, cefnogaeth ac arweiniad ansawdd uchel. Ni fydd unrhyw newid mewn gofal, cefnogaeth ac arweiniad yn yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt.

Arweinyddiaeth a rheoli

Ni fydd unrhyw newid i ansawdd ac effeithlonrwydd arweinwyr a rheolwyr yn yr ysgolion eraill yr effeithir arnynt. Yn yr ysgol gynradd Gymraeg newydd, bydd y tîm arweinyddiaeth ysgol yn derbyn cefnogaeth ac arweiniad gan yr awdurdod lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg i sicrhau y mabwysiedir arfer gorau mewn arweinyddiaeth a rheoli.

Mae crynodeb yn atodiad 2 o adroddiadau Estyn ar gyfer ysgolion yr effeithir arnynt.

## 8. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Cafodd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Fynwy ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022. Mae sefydlu trydedd ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Sir Fynwy yn elfen ganolog yn ein Strategaeth Cymraeg mewn Addysg i'n galluogi i gyrraedd ein targed o 115 o ddysgwyr ym mhob grŵp blwyddyn cynradd yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2031.

Bydd lleoliad yr ysgol newydd yn nhref Trefynwy yn annog mwy o rieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg oherwydd y bydd yn gostwng yr angen i ddysgwyr deithio pellter maith i gael addysg cyfrwng Cymraeg yn y Fenni. Bu hyn yn ffactor bennaf i rai rhieni wrth benderfynu dewis ysgol ar gyfer eu plentyn.

## 9. CYLLID

Bydd costau cychwynnol yr ysgol gynradd cyfrwng cymraeg:

| | | |
|---|---|---|
| Costau staffio | £93,203 | Un athro/athrawes amser llawn ac un cynorthwyydd addysgu amser llawn ar gyfer y cyfnod sylfaen. Mae hyn yn cynnwys costau asiantaeth i lanw dros absenoldeb a PPA |
| Pennaeth | £92,886 | Un pennaeth ysgol sydd hefyd yn addysgu |
| Adnoddau | £5,000 | |
| Gweinyddiaeth | £5,000 | |

Mae'r costau uchod ar gyfer y flwyddyn lawn. Bydd y costau yn is ar gyfer y flwyddyn gyntaf i adlewyrchu 7 mis olaf y flwyddyn ariannol.

Mae Ysgol Gynradd Overmonnow yn cael ei hariannu'n llawn ar hyn o bryd ar gyfer cyfleustodau, cynnal a chadw a thiroedd felly ni ddisgwylir unrhyw gostau ychwanegol.

Disgwylir i'r costau cludiant fod yn niwtral. Rhagwelir y caiff unrhyw gostau ychwanegol eu gwrthbwyso gan arbedion cludo disgyblion i ysgolion cynradd Cymraeg eraill.

Wrth i'r ysgol gynyddu mewn maint, y costau ar gyfer pob dosbarth fydd:

| | | |
|---|---|---|
| Costau staffio | £88,203 | Un athro/athrawes amser llawn ac un cynorthwyydd addysgu amser llawn ar gyfer y cyfnod sylfaen |
| Cynorthwyydd Addysgu lefel uwch | £9,513 | 20% |
| Adnoddau | £5,000 | |

I sefydlu'r ysgol gynradd cyfrwng cymraeg y costau cyfalaf fydd £3,600,000. Mae hyn yn cynnwys adnewyddu 3 ystafell ddosbarth, blynyddoedd cynnar ac ôl-groniad gwaith cynnal a chadw. Caiff hyn ei ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru.

## 10. TIR AC ADEILADAU

Ni fydd angen unrhyw drosglwyddo neu waredu ar dir ac adeiladau oherwydd y caiff yr ysgol gynradd Gymraeg ei lleoli ar safle presennol.

## 11. TREFNIADAU YMGYNGHORI

Mae'r Cyngor yn cynnig ***agor Ysgol Gynradd Gymraeg 3-11 drwy fodel egin/twf ar safle Ysgol Gynradd Overmonnow drwy ddefnyddio adeiladau presennol.***

Mae'r Cyngor yn awr yn cymryd rhan mewn prosesau ymgynghori gyda phartïon â chanddynt fuddiant i sicrhau fod unrhyw benderfyniad a gymerir gan y Cyngor yn un gwybodus.

Yr amserlenni ar gyfer y broses ymgynghori ffurfiol yw:

| Cyfnod ymgynghori statudol i ddechrau erbyn | Cyfnod ymgynghori statudol i ddod i ben erbyn | Cyfnod ymgynghori gofynnol |
|---|---|---|
| 29 Mawrth 2023 | 15 Mai 2023 | 6 wythnos (yn cynnwys 20 diwrnod ysgol) |

### 11.1 PROSES YMGYNGHORI FFURFIOL

Mae'r broses ymgynghori ffurfiol yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu cofnodi a'u hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu p'un ai i weithredu'r cynnig ai peidio.

Mae'r Cyngor yn anelu i ymgysylltu gydag ystod eang o randdeiliaid ar y cynnig a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon. Mae rhestr lawn o'r ymgyngoreion ar gael yn Atodiad 3.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, mae'r Cyngor wedi trefnu'r sesiynau dilynol i ymgysylltu â phartïon a chanddynt fuddiant a all ddymuno dysgu am y cynnig:

| Ymgynghorai | Diwrnod | Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|---|---|
| Rhieni Ysgol Gynradd Overmonnow | Dydd Mawrth | 25 Ebrill 2023 | 2:15pm | Ysgol Gynradd Overmonnow |
| Staff Ysgol Gynradd Overmonnow | Dydd Mawrth | 25 Ebrill 2023 | 3:15pm | Ysgol Gynradd Overmonnow |
| Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Overmonnow | Dydd Mawrth | 25 Ebrill 2023 | 4:15pm | Ysgol Gynradd Overmonnow |
| Partïon a chanddynt fuddiant | Dydd Mawrth | 25 Ebrill 2023 | 5:30pm | Ysgol Gynradd Overmonnow |

Yn ychwanegol at yr uchod gellir cyflwyno unrhyw farn, sylwadau neu gwestiynau ar y cynnig i'r Cyngor drwy:

- Llenwi'r holiadur ymgynghori ar-lein sydd ar gael yn www.monmouthshire.gov.uk/school-reorganisation
- Anfon e-bost at strategicreview@monmouthshire.gov.uk

Bydd llenwi'r holiadur yn ein galluogi i gynnal dadansoddiad manwl o'r adborth gan ymgyngoreion.

Rhaid cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod erbyn canol nos ar **15 Mai 2023.**

**Pwysig:** Ni fydd yr ymgynghoriad yn gwneud unrhyw dybiaethau felly p'un ai ydych dros neu'n erbyn y newidiadau a gynigir, gofynnir i chi fanteisio ar y cyfle i roi eich barn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar y cynigiwn cysylltwch â'r Uned Derbyn ar 01633 644508 neu anfon e-bost at strategicreview@monmouthshire.gov.uk.
Mae'n bwysig nodi na chaiff unrhyw sylwadau anffafriol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu trin fel gwrthwynebiadau i'r cynnig ond cânt eu derbyn fel sylwadau yn erbyn. Dim ond ar ôl i'r cyfnod ymgynghori y gellir derbyn gwrthwynebiadau i'r cynigion ac os yw'r Cyngor yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynigion drwy gyhoeddi hysbysiadau statudol.

Os dymunwch wrthwynebu, bydd angen i chi wneud felly mewn ysgrifen os yw'r Cyngor yn dechrau ar gyfnod gwrthwynebiadau statudol. Caiff hyn ei dderbyn os yw ymgyngoreion yn cyflwyno cais yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, yn gofyn am i ymateb a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gael ei drin fel gwrthwynebiad.

## 11.2 YMGYNGHORIAD GYDA PHLANT A PHOBL IFANC

Mae barn plant a phobl ifanc yn bwysig tu hwnt i'r Cyngor ac felly caiff plant a phobl ifanc gyfleoedd i gyfrannu at y broses ymgynghori. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu fersiwn gryno o'r ddogfen ymgynghori, a fydd ar gael i'r holl blant a phobl ifanc y mae'r cynnig hwn yn effeithio arnynt.

Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cynnal sesiynau gyda'r cynghorau ysgol perthnasol a dysgwyr unigol lle teimlir fod hyn yn briodol ac ymarferol. Caiff ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc ei gefnogi gan weithwyr proffesiynol allweddol a chaiff eu sylwadau eu casglu a'u hystyried mewn unrhyw adroddiadau a all benderfynu ar ein ffordd ymlaen.

## 11.3 DIWEDD Y CYFNOD YMGYNGHORI FFURFIOL

Bydd y cyfle i ymateb i'r cynnig a amlinellir o fewn y ddogfen ymgynghori hwn yn dod i ben am **ganol nos ar 15 Mai 2023**. Byddir wedyn yn rhoi adroddiad ymgynghori i Gabinet y Cyngor yn dadansoddi'r sylwadau a gafodd eu rhannu gan ymgyngoreion yn ystod y broses ymgynghori ffurfiol a phenderfynu os ydynt yn dymuno symud ymlaen gyda'r cynnig ai peidio. Caiff copi adroddiad yr ymgynghoriad ei gyhoeddi o leiaf ddwy wythnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

Cyhoeddir hysbysiad statudol os yw Cabinet y Cyngor yn penderfynu symud ymlaen gyda'r cynnig. Bydd y cyfnod hysbysiad statudol yn parhau am 28 diwrnod o'r dyddiad cyhoeddi i alluogi ymgyngoreion i fynegi eu barn ar ffurf cefnogi'r cynnig neu ei wrthwynebu.

Bydd Cabinet y Cyngor wedyn yn ystyried yr ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol ar ffurf adroddiad gwrthwynebiadau, ac yn gwneud y penderfyniad penodol am p'un ai i symud ymlaen gyda'r cynnig. Yr amserlen arfaethedig ar gyfer gwneud penderfyniad yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol yw:

| Cam y broses | Dyddiad allweddol |
|---|---|
| Y Cabinet yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn penderfynu p'un ai i symud ymlaen gyda'r cynnig | 7 Mehefin 2023 |
| Y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiad statudol ac yn dechrau ar y cyfnod gwrthwynebiadau | 19 Mehefin 2023 |
| Y Cabinet yn ystyried yr adroddiad gwrthwynebiadau ac yn penderfynu p'un ai i weithredu'r cynnig ai peidio | 6 Medi 2023 |
| Gweithredu'r cynnig | 1 Medi 2024 |

## 12. STAFFIO

Os cytunir ar y cynnig er mwyn sefydlu'r ysgol newydd bydd angen i ni ddilyn prosesau i sicrhau fod popeth yn ei le yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau cyflogaeth ac arweinyddiaeth.

Mae'r polisi diogelu cyflogaeth ar gyfer ysgolion yn cadarnhau y byddai'r corff llywodraethu dros dro yn gyntaf yn penodi pennaeth ac wedyn y staff. Byddai angen i'r corff llywodraethu dros dro ystyried yr amserlenni ar gyfer penodi pennaeth fel y gellid creu y strwythur staffio priodol a mynd ati i recriwtio.

Byddai'r Cyngor yn hyrwyddo mabwysiadu polisïau adnoddau dynol Cyngor Sir Fynwy gan y cynhaliwyd ymgynghoriad arnynt gyda chynrychiolwyr undebau llafur.

## 13. ASESIAD EFFAITH AR Y GYMUNED / EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

### 13.1 ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Mae asesiadau o'r effaith ar y gymuned yn ffordd strwythuredig i'r Cyngor i ddeall yn llawn beth yw goblygiadau ei benderfyniadau ac os ydynt yn niweidiol neu wahanaethol i rai grwpiau neu adrannau o'r gymuned. Maent yn helpu'r Cyngor i ystyried effaith ei benderfyniadau a'i bolisïau o fewn a rhwng cymunedau yn fwy cyffredinol. Mae'r broses Asesiad Effaith ar y Gymuned yn sicrhau fod proses gwneud penderfyniadau y Cyngor yn gadarn ac y caiff effeithiau ar bob cymuned o fewn Sir Fynwy eu hystyried yn llawn ym musnes y Cyngor. Drwy gynnal asesiadau effaith mae'r Cyngor yn gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer ein holl ddefnyddwyr gwasanaeth, cyflogeion a'r gymuned yn ehangach.

### 13.2 ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae'r Cyngor yn cydnabod fod gan bobl wahanol anghenion, gofynion a nodau a bydd yn gweithredu yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hyrwyddo cysylltiadau da a pharch at ei gilydd o fewn a rhwng ein cymunedau, preswylwyr, aelodau etholedig, ymgeiswyr am swyddi a'r gweithlu. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithio i greu mynediad cyfartal i bawb i'n gwasanaethau, beth bynnag eu tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd, credoau neu ddiffyg credoau crefyddol, defnydd o'r Gymraeg, BSL neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion neu unrhyw reswm arall na fedrir dangos bod cyfiawnhad drosto.

Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mae ar gael yn www.monmouthshire.gov.uk/school-reorganisation

## 14. EFFAITH AR Y GYMRAEG

Mae'r cynnig yn cefnogi'r holl dargedau a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Pe gweithredid y cynnig, byddid yn ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg drwy sefydlu ysgol gynradd egin yn nhref Trefynwy, a fyddai'n gwasanaethu ardal ehangach yn cynnwys Rhaglan, Brynbuga, Tryleg a Llandogo.

Mae'n amlwg o'r wybodaeth a roddir uchod y byddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth Gymraeg o fewn yr ardal ac ar Drefynwy yn arbennig. Ar hyn o bryd byddai'n rhaid i ddisgyblion sy'n byw yn Nhrefynwy ac sydd eisiau cael addysg cyfrwng Cymraeg deithio pellter maith i Ysgol Gymraeg y Fenni i dderbyn hynny.

## 15. TREFNIADAU DERBYN

Cyngor Sir Fynwy fydd yn gyfrifol am dderbyn disgyblion i'r ysgol egin newydd a gwneir hynny yn unol â'r Polisi Derbyn i Ysgolion.

Caiff ceisiadau ar gyfer derbyn i bob ysgol gynradd gymunedol eu hasesu yn unol â pholisi derbyn i ysgolion Cyngor Sir Fynwy.

Bydd rhieni/gofalwyr yn cael cyfle i lenwi cais ar-lein a gallant fynegi hyd at dri dewis. Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithredu cynllun dewis cyfartal, sy'n golygu y caiff pob dewis ei ystyried yn unol â meini prawf yr Awdurdod Lleol ar gyfer pan fo mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, ac nid ar y sail y cânt eu rhestru ar y ffurflen gais.

Derbyn i'r Dosbarth Derbyn – Medi 2024

Bydd y broses gais yn agor ar 6 Tachwedd 2023 a'r dyddiad cau yw canol nos ar 9 Ionawr 2024.

Caiff penderfyniadau ar gyfer ceisiadau mewn-pryd eu cyhoeddi ar 16 Ebrill 2024.

## 16. CLUDIANT RHWNG Y CARTREF A'R YSGOL

Caiff cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ei ddarparu yn unol â'r polisi cyfredol sy'n nodi y bydd disgyblion sy'n mynychu eu hysgol gynradd agosaf neu ddalgylch ac yn byw fwy na 1.5 milltir i ffwrdd yn gymwys.

Ni fydd disgyblion sy'n derbyn cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol i ddarpariaeth bresennol fydd yn byw yn y dalgylch ar gyfer yr ysgol egin yn colli eu hawl i gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol. Bydd pellter rhwng y cartref a'r ysgol a'r dalgylchoedd newydd yn berthnasol ar gyfer ceisiadau i ddechrau yn yr ysgol newydd yn weithredol o fis Medi 2024.

Mae manylion pellach ar y polisi cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar gael ar y ddolen ddilynol:
School Transport - Monmouthshire

## 17. GWYBODAETH ARALL

Mae mwy o wybodaeth a diweddariadau rheolaidd ar y cynnig ar gael ar y dudalen ddilynol ar y wefan:

www.monmouthshire.gov.uk/school-reorganisation

Caiff cwestiynau cyffredin eu lanlwytho'n wythnosol a'u rhoi ar wefan Cyngor Sir Fynwy.

## 18. ATODIAD 1 – DALGYLCHOEDD ARFAETHEDIG




## 19. ATODIAD 2 – ADRODDIADAU ESTYN

Caiff adroddiadau arolygon diweddaraf Estyn eu dangos isod ar gyfer yr ysgolion y mae'r cynigon yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt.

| Ysgol Gynradd Overmonnow | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolwg:** | Tachwedd 2018 |
| **Argymhellion:** | |
| R1 Codi safonau ymhellach, drwy wneud defnydd llawn o'r amser addysgu a dysgu sydd ar gael ym mhob gwers. | |
| R2 Manteisio i'r eithaf ar y defnydd o adnoddau, yn cynnwys rhannu arbenigedd yr holl staff addysgu a staff cymorth ledled yr ysgol. | |
| R3 Gwella prydlondeb disgyblion | |
| **Gweithgarwch dilynol:** | Dim gweithgarwch dilynol |
| **Dolen i'r adroddiad:** | https://www.estyn.gov.wales/system/files/2021-08/Inspection%20report%20Overmonnow%20C.P.%20School%202019.pdf |

| Ysgol Gynradd Osbaston | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolwg:** | Medi 2019 |
| **Argymhellion:** | |
| R1 Gwella sgiliau rhesymeg fathemategol y disgyblion a'u galluoedd i ddefnyddio sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm. | |
| R2 Sicrhau fod yr holl addysgu yn cyrraedd safonau arfer gorau yr ysgol. | |
| R3 Rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gwersi addysg gorfforol. | |
| **Gweithgarwch dilynol** | Dim gweithgarwch dilynol |
| **Dolen i'r adroddiad:** | https://www.estyn.gov.wales/system/files/202108/Inspection%20report%20Osbaston%20CIW%20Primary%20School%202019.pdf |

| Ysgol Gynradd Kymin View | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolwg:** | Mai 2016 |
| **Argymhellion:** | |
| R1 Codi safonau ysgrifennu estynedig, llawysgrifen a chyflwyniad yng nghyfnod allweddol 2 | |
| R2 Gwella deilliannau ar gyfer disgyblion mwy galluog ym mhob grŵp blwyddyn | |
| R3 Gwella ansawdd marcio ac adborth i ddisgyblion | |
| R4 Sicrhau fod holl asesiadau athrawon yn fanwl gywir | |
| R5 Mireinio prosesau hunanwerthuso i ddynodi'n fanwl gywir y meysydd mwyaf sylweddol ar gyfer eu gwella | |
| R6 Sicrhau fod gan gynlluniau gwella dargedau penodol a mesuradwy | |
| **Gweithgarwch dilynol:** | Dim gweithgarwch dilynol |
| **Dolen i'r adroddiad:** | https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Kymin%2520View%2520Primary.pdf |

`

| Ysgol Gynradd Llandogo | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolwg:** | Hydref 2013 |
| **Argymhellion:** | |
| R1 Codi safonau cyrhaeddiad ym meysydd craidd dysgu yn y Cyfnod Sylfaen a hefyd gyfnod allweddol 2 i sicrhau fod pob disgybl, yn arbennig y rhai mwyaf galluog, yn cyrraedd eu potensial llawn | |
| R2 Gwella safonau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, yn arbennig yng nghyswllt ysgrifennu estynedig yng nghyfnod allweddol 2 | |
| R3 Codi safonau Cymraeg ail iaith | |
| R4 Sicrhau fod pob gweithdrefn gynllunio yn drwyadl a chyson, yn arbennig yng nghyswllt cynllunio sgiliau allweddol ar draws y cwricwlwm | |
| R5 Dynodi'r diffygion a ddynodwyd mewn addysgu | |
| R6 Gwella gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu, marcio ac adroddiadau i rieni | |
| R7 Datblygu gweithdrefnau hunanarfarnu i sicrhau gwelliant cyson | |
| R8 Gwella cyfathrebu gyda phob partner. | |
| **Gweithgarwch dilynol:** | Monitro gan Estyn |
| **Dolen i'r adroddiad:** | https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Inspection%2520report%2520Llandogo%2520C.P.%2520School%25202013%2520%2528English%2520only%2529_0.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf.pdf |

| Ysgol Gynradd Cross Ash | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolwg:** | Mehefin 2014 |
| **Argymhellion:** | |
| R1 Codi safonau llefaredd Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 | |
| R2 Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn fwy annibynnol a chreadigol mewn gwaith ar draws y cwricwlwm | |
| R3 Cryfhau'r dimensiwn Cymreig | |
| R4 Sicrhau y caiff gofynion statudol ar gyfer cyd-addoli eu cyflawni | |
| R5 Gwella'r dadansoddiad strategol o ddata ysgolion i gynllunio darpariaeth i ddiwallu anghenion pob grŵp o ddisgyblion | |
| **Gweithgarwch dilynol** | Dim gweithgarwch dilynol |
| **Dolen i'r adroddiad:** | https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Cross%2520Ash%2520C.P.%2520School_0.pdf |

| Ysgol Gynradd Rhaglen | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolwg:** | Tachwedd 2016 |
| **Argymhellion:** | |
| R1 Gwella deilliannau mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer disgyblion mwy galluog yng nghyfnod allweddol 2 | |
| R2 Gwella cyfraddau presenoldeb | |
| R3 Darparu cyfleoedd pellach ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i weithredu eu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm | |
| R4 Sicrhau bod adborth ysgrifenedig athrawon i ddisgyblion yn effeithlon wrth sicrhau gwelliannau | |
| R5 Datblygu rôl y corff llywodraethol yn llawnach wrth ddal yr ysgol i gyfrif | |
| R6 Sicrhau bod gweithdrefnau hunanarfarnu yr ysgol yn cynnwys staff, llywodraethwyr a rhieni yn llawnach | |
| **Gweithgaredd dilynol:** | Adolygiad Estyn |

| | |
|---|---|
| **Dolen i adroddiad:** | https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Raglan%2520CIW%2520V.C.%2520Primary%2520School.pdf |

| Ysgol Gynradd Brynbuga | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolwg:** | Ebrill 2018 |
| **Argymhellion:** | |
| R1 Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu eu sgiliau dysgu annibynnol a cydnerthedd i sicrhau eu bod yn cadw eu ffocws ar eu dysgu | |
| R2 Gwella sillafu yng nghyfnod allweddol 2 | |
| R3 Codi safonau mewn llawysgrifen a chyflwyniad yng nghyfnod allweddol 2 | |
| **Gweithgarwch dilynol:** | Dim gweithgarwch dilynol Astudiaeth Achos 2 |
| **Dolen i'r adroddiad** | https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Usk%2520CIW%2520Primary%2520School.pdf |

| Ysgol Gynradd Tryleg | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolwg:** | Ebrill 2015 |
| **Argymhellion:** | |
| R1 Codi safonau Cymraeg ail iaith | |
| R2 Ymestyn gallu disgyblion i gymryd cyfrifoldeb a chyfrannu at wneud penderfyniadau yn yr ysgol | |
| R3 Ymestyn cyfleoedd i ddisgyblion brofi'r cwricwlwm ehangach a dysgu mwy am hanes a diwylliant Cymru | |
| R4 Sicrhau bod y nifer fach o ddisgyblion mewn grwpiau ymyrryd yn mynychu'r gwasanaeth cydaddoli dyddiol fel bod yr ysgol yn cyrraedd pob gofyniad statudol | |
| R5 Olrhain penderfyniadau a phwyntiau gweithredu yn deillio o gyfarfodydd rheoli yn fwy systematig | |
| **Gweithgarwch dilynol:** | Dim gweithgarwch dilynol |
| **Dolen i'r adroddiad** | https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Inspection_report_Trellech_CP_School_2015_English_only.pdf |

| Ysgol Gymraeg y Fenni | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolwg:** | Chwefror 2017 |
| **Argymhellion** | |
| R1 Sicrhau bod athrawon yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol, i'w galluogi i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain | |
| R2 Sicrhau bod adborth yr athrawon yn galluogi disgyblion i ddeall yn union beth sydd angen iddyn nhw ei wneud | |
| R3 Mynd i'r afael â'r pryder diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad | |
| **Gweithgarwch dilynol:** | Dim gweithgarwch dilynol Astudiaeth achos Estyn |
| **Dolen i'r adroddiad:** | https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Ysgol%2520Gymraeg%2520y%2520Fenni%2520eng_0.pdf |

| Ysgol Gymraeg y Ffin | |
|---|---|
| **Dyddiad yr Arolwg:** | Hydref 2017 |
| **Argymhellion:** | |
| R1 Rhannu arferion gorau'r addysgu ar draws yr ysgol | |

| | |
|---|---|
| R2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd yn fwy cyson mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2 | |
| R3 Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh disgyblion cyfnod allweddol 2 | |
| **Gweithgarwch dilynol:** | Dim gweithgarwch dilynol |
| **Dolen i'r adroddiad:** | https://www.estyn.gov.wales/system/files/2020-08/Ysgol%2520Gymraeg%2520y%2520Ffin%2520en.pdf |

## 20.ATODIAD 3 – RHESTR YMGYNGOREION

- Rhieni, gofalwyr/gwarcheidwaid ac aelodau staff ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt
- Corff llywodraethu unrhyw ysgol y mae'r cynnig yn effeithio arnynt
- Disgyblion/Cynghorau Disgyblion ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt
- Penaethiaid ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt
- Gweinidogion Cymru
- Cynghorau Tref a Chymuned yn ardal Trefynwy
- Aelodau Senedd Cymru yn cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol
- Aelodau Senedd San Steffan yn cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgol
- Cyfarwyddwyr Addysg pob awdurdod lleol cyfagos – Blaenau Gwent, Casnewydd, Torfaen, Swydd Henffordd, Swydd Caerloyw
- GAVO
- Undebau llafur addysgu
- Undebau llafur staff cymorth
- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- RhAG
- Ymddiriedolaeth Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru, Cyfarwyddwr Addysg
- Ymddiriedolaeth Esgobaethol Catholig, Cyfarwyddwr Addysg
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent
- Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Fforwm Cymraeg mewn Addysg

## 21.ATODIAD 4 - FFURFLEN YMATEB

monmouthshire
sir fynwy

CYNNIG – *Sefydlu Ysgol Gynradd Gymraeg*

EICH SYLWADAU

Hoffem eich sylwadau ar y cynnig uchod. Gofynnir i chi lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd i'r cyfeiriad ar y gwaelod, neu gellir ei chyflwyno yn y digwyddiad ymgynghori neu mae ffurflen ymateb ar-lein ar gael yn www.monmouthshire.gov.uk/school-reorganisation

Uned Mynediad, Cyngor Sir Fynwy, Neuadd y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA neu e-bost strategicreview@monmouthshire.gov.uk.

Ticiwch y blwch hwn os gwelwch yn dda os dymunwch gael eich hysbysu am gyhoeddi adroddiad yr ymgynghoriad. ☐